Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cytundebau Fframwaith Hapfasnachol

Nodyn Cyngor Caffael (PAN)

ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

1. Cyflwyniad

Pwyntiau i'w Nodi - sicrhewch eich bod yn darllen yr adran hon yn gyntaf

- *Nid yw'r wybodaeth a roddir yn y Nodyn Cyngor Caffael hwn yn gyngor cyfreithiol ac ni fwriedir iddo fod yn gynhwysfawr – dylai awdurdodau contractio geisio'u cyngor annibynnol eu hunain fel y bo'n briodol. Nodwch hefyd bod y gyfraith yn newid yn barhaus ac y dylid ceisio cyngor mewn achosion unigol. Mae'r ddogfen hon yn gywir ym mis Hydref 2017.*

Beth yw nod y Nodyn Cyngor Caffael hwn?

Mae'r Nodyn Cyngor Caffael (PAN) hwn yn tynnu sylw at yr angen i fod yn ofalus wrth brynu o "gytundebau fframwaith hapfasnachol" (a ddiffinnir isod) ac yn tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu fel awdurdod contractio arweiniol ar gyfer fframwaith o'r fath, a elwir weithiau fel 'bod yn wyneb blaen' iddo.

Ni fwriedir i'r PAN hwn fod yn arweiniad cynhwysfawr i weithredu fframweithiau (mae PAN ar wahân gan Lywodraeth Cymru ar Gytundebau Fframwaith). Mae'n canolbwyntio ar y prif feysydd perthnasol i gytundebau fframwaith hapfasnachol.

2. Gosod y Cyd-destun

2.1 Caffael Cyhoeddus yng Nghymru

Mae caffael cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei ategu gan Ddatganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) sy'n cynnwys deg o egwyddorion y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gaffael cyhoeddus weithredu yn unol â hwy. Gellir gweld yr WPPS drwy ddilyn y ddolen isod:-

http://gov.wales/topics/improvingservices/bettervfm/publications/procurement-policy-statement/?lang=cy

Yn y blynyddoedd diweddar, bu symudiad tuag at fwy o gydweithio yn y sector cyhoeddus gyda golwg ar gyfuno gofynion i gael gwared â dyblygu a chael gwell gwerth am arian. Drwy'r WPPS mae polisïau caffael Llywodraeth Cymru yn ceisio cydbwyso hynny gyda'r angen i agor cyfleoedd ar gyfer cwmnïau llai a chyflenwyr o'r trydydd sector a chryfhau'r economi yng Nghymru.

2.2 Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS)

Yng Nghymru, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) yn gyfrifol am sefydlu cytundebau fframwaith cydweithredol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a brynir yn gyffredin yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dylid ystyried yr NPS fel eich man cychwyn wrth geisio cytundebau fframwaith sydd ar gael i chi eu defnyddio oherwydd y mae'n ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid i sefydlu gofynion, yn ogystal â chynnwys Polisi Caffael Cymru yn ei weithgaredd caffael, gan gynnwys:-

- **Datganiad Polisi Caffael Cymru** - symleiddio'r broses caffael i'w gwneud yn haws i gyflenwyr bychain a chwmnïau yn y Trydydd Sector geisio am waith, gan sicrhau bod cyfleoedd yn agored a hygyrch a hyrwyddo cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer cyflenwyr lleol lle bo'n bosibl.

- **Y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi** - sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus yn cael eu trin yn deg a chyda pharch, gan helpu i gael gwared â phethau fel Caethwasiaeth Fodern, cosbrestru, hunangyflogaeth ffug a hyrwyddo talu'r cyflog byw.

- **Buddion Cymunedol** – cymhwyso cymalau cymdeithasol fel bod llefydd hyfforddi a chyfleoedd ar gyfer prentisiaethau yn cael eu creu, gan helpu i wella cyflogaeth, cryfhau'r economi a mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru.

- **Contractau Neilltuol** – hyrwyddo ymgysylltu â busnesau a chwmnïau a gefnogir sydd â chenhadaeth gymdeithasol, gall cytundebau fframwaith ar gyfer rhai nwyddau a gwasanaethau penodol gael eu neilltuo ar gyfer y sector pwysig hwn, sy'n chwarae rôl hanfodol o ran darparu gwasanaethau

cyhoeddus yng Nghymru.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – sicrhau bod saith nod y Ddeddf a phum ffordd o weithio'n cael eu cynnwys ym mhob gweithgarwch caffael a chytundebau fframwaith NPS. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y cymhwysir materion diwylliannol fel yr Iaith Gymraeg, ynghyd â sicrhau diogelwch y data a ddefnyddir drwy holl fframweithiau NPS - gan leihau risgiau o ran diogelwch seiber drwy fabwysiadu'r cynllun Hanfodion Seiber (Cyber Essentials) ynghyd â sicrhau bod fframweithiau'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol o ran Diogelu Data.

Yng ngoleuni hyn, cyn ystyried defnyddio cytundeb fframwaith hapfasnachol, fe'ch cynghorir i edrych a oes gan yr NPS gytundeb fframwaith amgen sy'n cwrdd â'ch anghenion ac un yr ydych wedi'ch rhestru fel defnyddiwr ar ei gyfer. Os nad oes gan yr NPS fframwaith addas, mae'n ddoeth edrych a oes gan sefydliad prynu arall yn y sector cyhoeddus, megis Crown Commercial Services neu'r Yorkshire Purchasing Organisation (YPO) fframwaith addas yr ydych wedi'ch rhestru fel defnyddiwr ar ei gyfer.

Mae fframweithiau'r NPS yn hygyrch i bob awdurdod lleol, y GIG, y sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru, y pedwar gwasanaeth heddlu yng Nghymru, y tri gwasanaeth tân yng Nghymru, naw corff a noddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r trydydd sector fel sefydliadau sy'n gwsmeriaid.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr NPS, y fframweithiau cyfredol a'r gwaith diweddaraf sydd yn yr arfaeth drwyhttp://nps.gov.wales/?skip=1&lang=en

3. Cytundebau Fframwaith

Mae cytundeb fframwaith yn nodi telerau cytundeb y gall corff cyhoeddus brynu nwyddau, gwasanaethau neu weithiau dano, gyda chontract yn cael ei ffurfio bob tro y mae awdurdod contractio yn gwneud gofyniad ar y fframwaith ac yn prynu nwyddau, gwasanaethau neu weithiau. I gael rhagor o wybodaeth ar osod cytundebau fframwaith yng Nghymru, cyfeiriwch at y Nodyn Cyngor Caffael Cytundeb Fframwaith

<http://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/frameworkpanfinal26may2017english.pdf>.

3.1 Manteision Fframweithiau

Gall cytundeb fframwaith effeithlon sy'n cael ei ddyfarnu / ddefnyddio'n gywir ac yn adlewyrchu gofynion y defnyddiwr ddod â llawer o fuddion, arbed amser / arian drwy i ddefnyddwyr allu cyflenwi'u hanghenion fel bo'r gofyn heb orfod mynd drwy gystadleuaeth newydd sy'n cael ei hysbysebu. Fel y nodwyd uchod, mae fframweithiau'r NPS hefyd yn dod â manteision ychwanegol yn cwmpasu materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer Cymru. I'r gwrthwyneb, gall fframwaith sydd wedi'i gynllunio'n wael ac yn cael ei ddyfarnu / ddefnyddio'n anghywir ac nad yw'n cynnwys unrhyw ymrwymiad ffurfiol gan ddefnyddwyr greu trafferthion ar gyfer prynwyr a chyflenwyr, efallai na fydd yn cynnig gwerth gorau am arian ac mae mewn perygl o gael ei herio.

Dylid nodi nad yw cytundebau fframwaith yn addas ar gyfer pob caffael ac weithiau mae trefniant gwahanol yn fwy addas, megis contract cyffredin neu System Prynu Deinamig (DPS) sy'n caniatáu i fwy o gyflenwyr gymryd rhan.

3.2 Pwy gaiff sefydlu cytundebau fframwaith cydweithredol?

Mae'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn datgan mai dim ond awdurdodau contractio gaiff sefydlu a hysbysebu cytundebau fframwaith, ar eu cyfer eu hunain ac ar ran awdurdodau contractio eraill. Mae hyn yn arbennig o gyffredin yn achos awdurdodau contractio sy'n gweithredu fel Cyrff Prynu Canolog, a ddiffinnir yn Rheoliad 2 PCR 2015 fel "awdurdod contractio sy'n darparu gweithgarwch prynu canolog ac a allai hefyd ddarparu gweithgarwch prynu ategol."

Nid oes caniatâd dan gyfraith i sefydliadau preifat sefydlu cytundebau fframwaith ac o'r herwydd mae'n bosib iawn eu bod yn mynd at gorff cyhoeddus i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r fframwaith.

4. Cytundebau Fframwaith Hapfasnachol

4.1 Beth yw "cytundeb fframwaith hapfasnachol"?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol fod nifer o sefydliadau yn honni cynnig cytundebau fframwaith sy'n cydymffurfio â'r gyfraith i awdurdodau contractio yng Nghymru. Mewn rhai achosion, mae'n amlwg fod y cytundebau fframwaith hyn wedi cael eu dyfarnu heb ymgynghori ymlaen llaw â'r awdurdodau hynny ac o bosibl wedi cael eu sefydlu heb unrhyw wir ddealltwriaeth o ofynion go iawn yr awdurdod. Gallai hyn fod â goblygiadau sylweddol i gyrff cyhoeddus o ran y gyfraith a gwerth am arian.

4.2 Beth yw'r materion dadleuol ynghylch cytundebau fframwaith hapfasnachol?

Er mwyn dibynnu ar gytundeb fframwaith a'i ddefnyddio pan fo'r gofyn, rhaid i'r fframwaith dan sylw fod wedi'i ddyfarnu drwy gydymffurfio â chyfraith caffael. Rhaid i hysbysiad contract fod wedi'i gyhoeddi sy'n gwneud y canlynol: -

- Enwi'r awdurdod contractio a fydd yn gyfrifol dan gyfraith am weinyddu'r broses caffael a'r fframwaith dilynol;
- Diffinio pwy allai ddefnyddio'r fframwaith;
- Diffinio beth y mae defnyddwyr yn dymuno'i brynu, gan gynnwys y cwmpas ac amcangyfrif o werth; a
- Nodi beth sy'n angenrheidiol er mwyn cymryd rhan yn y broses neu sut i gael y wybodaeth angenrheidiol am gymryd rhan.

Dylai'r wybodaeth hon fod mor gywir â phosibl, er mwyn caniatáu i ymgeiswyr posibl benderfynu a ydynt yn dymuno bod yn rhan o'r fframwaith.

Dylai'r fframwaith sefydlu'r telerau a'r amodau y bydd contractau dilynol yn ôl y gofyn ("call-off) yn cael eu dyfarnu danynt. Mae dyfarnu contractau yn ôl y gofyn yn destun rhai gofynion cyfreithiol penodol ynghylch meini prawf dyfarnu y mae'n rhaid eu cymhwyso, a'r amgylchiadau pryd y bydd mini-gystadleuaeth yn ofynnol.

5. Ystyriaethau Allweddol o ran Cytundebau Fframwaith Hapfasnachol

Os daw sefydliadau preifat at gyrff cyhoeddus yng Nghymru gan gynnig iddynt ddefnyddio cytundeb fframwaith, a honni ei fod yn cydymffurfio â'r gyfraith, ni ddylai'r corff cyhoeddus hwnnw dderbyn y cynigion hyn yn awtomatig, ac ym mhob achos dylent ystyried y canlynol:

- A oes modd adnabod yn glir y cyrff cyhoeddus y rhagwelir y byddant yn defnyddio'r fframwaith yn y dogfennau caffael fel partïon i'r cytundeb caffael?
- A oedd gwerth posibl y fframwaith a hysbysebwyd yn realistig, yn eglur ac yn dryloyw?
- A ddyfarnwyd y fframwaith yn gyfreithiol ac a yw'r corff cyhoeddus yn hyderus fod gan yr awdurdod contractio arweiniol a enwyd y gallu/capasiti i oruchwylio'r caffael a rheoli'r fframwaith?
- A yw'r fframwaith yn darparu gwerth am arian?

Os gofynnir i gorff cyhoeddus yng Nghymru weithredu fel awdurdod contractio arweiniol a enwyd ar gyfer cytundeb fframwaith (fel y gwelir bod awdurdod contractio a enwyd yn ei ddyfarnu), dylai'r corff cyhoeddus hwnnw ystyried yn ofalus y risgiau a'r goblygiadau cyfreithiol o wneud hynny a dylai geisio cyngor cyfreithiol fel bo'n briodol.

5.1 "Baner cyfleustra" awdurdodau contractio a enwyd

I ddibenion y PAN hwn mae awdurdodau contractio "baner cyfleustra" yn cyfeirio at y cyrff cyhoeddus hynny y gallai sefydliadau masnachol eu gwahodd i weithredu fel yr awdurdod contractio arweiniol a enwyd ar gyfer y cytundeb fframwaith y maent yn dymuno'i sefydlu.

Nid yw deddf caffael yn berthnasol i sefydliadau preifat, gan nad yw'r hawl cyfreithiol i dderbyn iawn am unrhyw dor-rheolau mewn proses gaffael ar gael ond yng nghyswllt gweithrediadau corff cyhoeddus ("awdurdod contractio"). O'r herwydd, er

mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth caffael, rhaid i hysbysiad contract nodi o leiaf un awdurdod contractio arweiniol a enwyd; drwy hynny mae'r sefydliad preifat angen awdurdod contractio "baner cyfleustra". Mewn rhai achosion gallai'r awdurdodau contractio a enwyd fod yn gyrff cyhoeddus gweddol fychan, ac efallai nad oes ganddynt unrhyw brofiad penodol nac arbenigedd o ran contractio cydweithredol.

Mewn rhai achosion, gall y sefydliad / awdurdod contractio arweiniol geisio gwadu pob cyfrifoldeb dros atebolrwydd cyfreithiol yng nghyswllt sefydlu'r fframwaith neu ddefnydd o'r fframwaith gan gorff cyhoeddus tra'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n defnyddio'r fframwaith indemnio'r sefydliad ayb. rhag unrhyw hawliad gan drydydd parti yn codi o weithrediadau'r defnyddiwr wrth ddefnyddio'r fframwaith.

Mae'n bwysig deall bod awdurdod sy'n gweithredu fel awdurdod contractio arweiniol / a enwyd ar gyfer gweithdrefn gaffael sy'n cael ei rheoleiddio, mewn gwirionedd **yn cymryd cyfrifoldeb cyfreithiol dros gydymffurfiaeth** y fframwaith â chyfraith caffael. Yn ogystal, nid yw'r atebolrwydd hwnnw yn dod i ben pan gaiff y fframwaith ei ddyfarnu - gallai'r awdurdod a enwyd gael ei nodi mewn unrhyw achos cyfreithiol dilynol ynghylch gweithredu'r fframwaith ac unrhyw gontractau yn ôl y gofyn ('call-off') a ddyfarnwyd dano. Gallai camau gael eu cymryd yn erbyn yr awdurdod a enwyd hefyd gan ddefnyddiwr y fframwaith yng nghyswllt unrhyw golledion a ddioddefwyd; er enghraifft, pe byddai'n cael ei farnu nad oedd contract a ddyfarnwyd dan y fframwaith yn cydymffurfio, gan olygu iawndal a/neu golledion i ddefnyddiwr y fframwaith. Felly, dylai unrhyw gorff cyhoeddus y gofynnir iddo weithredu fel awdurdod contractio "baner cyfleustra" ystyried y risgiau a'r goblygiadau'n ofalus iawn cyn gwneud hynny.

Wrth ystyried a yw defnyddio math penodol o fframwaith yn debygol o fod yn gyfreithiol a chydymffurfio â'r gyfraith, rydym yn argymell y dylai gallu a chapasiti'r awdurdod a enwyd fod yn ffactor pwysig. Rydym felly'n cynghori y dylai unrhyw gorff cyhoeddus y gofynnir iddo weithredu fel awdurdod contractio "baner cyfleustra" ystyried yn ofalus ei allu a'i gapasiti i wneud hynny a cheisio cyngor cyfreithiol os bydd angen.

5.2 Defnyddwyr fframwaith a enwyd

Er mwyn i awdurdod contractio ddefnyddio cytundeb fframwaith yn gyfreithiol, mae angen iddo fod wedi'i nodi'n glir yn yr hysbysiad contract. Oni fo'r awdurdod contractio arweiniol wedi cael caniatâd ymlaen llaw gan awdurdodau contractio eraill ac wedi ystyried eu gofynion a'u gwariant ni ddylent gael eu rhestru mewn hysbysiad contract. Mae gwneud hynny yn achosi dryswch i bob parti – mae'n gamarweiniol i gyflenwyr posibl a gall achosi anfodlonrwydd ymysg awdurdodau contractio nad ydynt wedi rhoi caniatâd i gael eu cynnwys. Gellir dweud yr un peth ynghylch defnyddio termau amwys fel "unrhyw awdurdod contractio" neu "pob corff cyhoeddus yng Nghymru" neu restru pob dosbarth o awdurdod contractio, heb unrhyw arwydd a ymgynghorwyd â hwy ai peidio. Mae'r dull hwn o weithredu'n ei gwneud yn anodd i ddarpar gynigwyr allu canfod pa awdurdodau contractio sy'n debygol o ddefnyddio'r fframwaith.

Dylid eu nodi un ai drwy eu henw neu drwy ryw ddull arall sy'n golygu bod modd canfod yn glir pwy ydynt. Lle bynnag y bo'n bosibl dylid cynnwys dolen at restr o awdurdodau contractio perthnasol. Fodd bynnag gallai defnyddwyr posibl y fframwaith gael eu canfod drwy gyfeirio at ddosbarth penodol o awdurdodau contractio mewn rhanbarth a ddiffiniwyd y gellir ei nodi ar y rhyngrwyd e.e. awdurdodau contractio sydd wedi ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fel y'u rhestrwyd yn <http://nps.gov.wales/about-us/customer-member-organisations?lang=cy>

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, yn absenoldeb cytundeb penodol ymlaen llaw, nid yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau contractio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cydsynio i gael eu rhestru fel defnyddwyr unrhyw gytundeb fframwaith nad yw wedi'i osod gan gorff caffael cyhoeddus cydnabyddedig, oni fyddant yn cydsynio'n benodol i gael eu cynnwys a byddant yn ystyried yr holl gamau sydd ar gael iddynt os byddant yn canfod bod eu manylion wedi eu cyflwyno i'r farchnad mewn hysbysiad contract heb y caniatâd angenrheidiol.

5.3 Disgrifiad o werth y contract

Mae'n bwysig i gwmpas llawn y cytundeb ac yn union beth sydd am gael ei gynnwys gael ei ystyried yn ofalus ar y dechrau oherwydd unwaith y bydd y fframwaith wedi ei

ddyfarnu, ni ellir gwneud unrhyw addasiadau sylweddol i'w delerau. Byddai'n anghyfreithlon ymestyn cwmpas y cytundeb i gynnwys cynhyrchion neu wasanaethau sylfaenol newydd na chawsant eu hysbysebu'n wreiddiol.

I sicrhau cydymffurfio â chyfraith caffael yr UE, rhaid i'r hysbysiad contract ddarparu amcangyfrif o werth y cytundeb fframwaith. Ar gyfer cytundebau fframwaith cydweithredol, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr amcangyfrif hwn yn cynrychioli'r holl gytundebau posibl yn ôl y gofyn gydol oes y cytundeb y gellid cael eu gwneud gan awdurdodau contractio y caniateir iddynt ddefnyddio'r fframwaith. Nid yw hyn yn debygol o fod yn gywir ond os bydd awdurdodau contractio a enwyd fel partïon yn y fframwaith wedi derbyn ymgynghoriad ynghylch eu cysylltiad hwy a graddfa bosibl y galw.

Caniateir darparu amrediad o amcangyfrif gwerth os oes rhywfaint o ansicrwydd, ond mae rhwymedigaeth o hyd ar yr awdurdod contractio arweiniol i ddarparu'r wybodaeth fwyaf realistig sydd ar gael i'r farchnad h.y. dylai fod sail resymol ar gyfer yr amcangyfrif o gwmpas a/neu werth wedi'i gynnwys yn yr hysbysiad bob amser.

Mae risg o her gan gyflenwyr os yw hysbysiadau contract yn afrealistig a/neu yn cyfeirio at ystod eithriadol o eang o ran gwerth posibl, oherwydd mae'n bosibl nad ydynt yn darparu gwybodaeth ddigon cywir i alluogi cynigiwr posibl i benderfynu a all neu a ddylai gymryd rhan. Yn ogystal â bod yn arfer gwael, mae risgiau yn gysylltiedig â darparu amcangyfrif afrealistig o uchel yng nghyswllt cwmpas /gwerth, a hynny'n fwriadol. Os bydd contractwr yn dioddef unrhyw golledion ar ôl cael ei gamarwain mewn perthynas â fframwaith y mae wedi'i sicrhau, gallai ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn yr awdurdod contractio arweiniol.

5.4 Effaith gwerth fframwaith ar brisio

Bydd cyflenwyr yn aml yn defnyddio'r amcangyfrif o werth fframwaith i benderfynu pa brisiau y byddant yn eu cynnig yn y tendr. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod yr amcangyfrif gwerth mor realistig â phosibl fel y gall cyflenwyr fod â lefel o hyder wrth bennu prisiau.

5.5 Cost defnyddio cytundebau fframwaith hapfasnachol

Mae sefydliadau prynu canolog yn gweithredu dan amrywiaeth o wahanol fodelau busnes megis cyllido canolog, tanysgrifio ac ardoll contract, gyda rhai modelau busnes yn cyfuno elfennau o bob un o'r tri. Mae ardoll contract yn fodel cyffredin ar gyfer fframweithiau hapfasnachol, lle y mae cyflenwyr yn talu i'r sefydliad sy'n gyfrifol am y fframwaith ffi canran yn berthnasol i werth y busnes a dderbyniant dan y fframwaith. Felly, er y gallai'r fframwaith gael ei gyflwyno fel un sy'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio, y cwbl y gallai hyn ei olygu yw bod y gost wedi'i chynnwys yn y pris y mae defnyddwyr y fframwaith yn ei dalu i'r contractwr. Hefyd, gallai unrhyw ardoll a delir i gyrff preifat drwy ddefnyddio cytundebau o'r fath gael ei hystyried fel tâl am wasanaeth asiantaeth caffael ac o'r herwydd dylid penodi'r darparwr preifat drwy broses gaffael gyhoeddus sy'n cydymffurfio ac yn cael ei rheoli gan gorff cyhoeddus cyn y gallai fframweithiau o'r fath gael eu hystyried ar gyfer eu defnyddio.

5.6 Niferoedd y gweithredwyr economaidd i gael eu derbyn i'r fframwaith

Ni fu unrhyw enghreifftiau o fframweithiau hapfasnachol sydd wedi nodi niferoedd cwbl afrealistig o ran y nifer o gyflenwyr sydd i gael eu derbyn i'r fframwaith. Fel yn achos honiadau anghywir / afrealistig ynghylch cwmpas / gwerth fframwaith, mae hyn yn fater y gellir, o bosibl, ei herio dan gyfraith caffael ac mae mewn perygl o ddwyn anfri ar fframweithiau.

6. Casgliad

Fe'ch cynghorir i drin cytundebau fframwaith hapfasnachol a honiadau eu bod yn "cydymffurfio â'r gyfraith" yn ofalus iawn. Ystyriwch yn ofalus y goblygiadau cyfreithiol a'r ystyriaethau o ran gwerth am arian cyn defnyddio unrhyw fframwaith hapfasnachol. Os bydd unrhyw amheuaeth gennych, ceisiwch gyngor gan eich Pennaeth Caffael a/neu'r Gwasanaethau Cyfreithiol. Gallech hefyd holi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i weld a oes ganddynt fframwaith a fyddai'n cwrdd â'ch anghenion ac y gallech ei ddefnyddio'n gyfreithiol yn nationalprocurementservice@gov.wales <mailto:nationalprocurementservice@gov.wales>. Fel arall, gallwch anfon unrhyw ymholiadau at VWPolicy@gov.wales <mailto:VWPolicy@gov.wales>.

7. Lledaenu gwybodaeth

A wnewch chi ddwyn y PAN hwn i sylw'r holl staff perthnasol yn eich sefydliad / sector ac unrhyw gyrff cyhoeddus eraill a noddir o fewn eich maes cyfrifoldeb.

Cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y PAN hwn, cysylltwch â ni ar VWPolicy@gov.wales

8. Cydnabyddiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod wedi defnyddio'r cyhoeddiadau canlynol wrth gynhyrchu'r Nodyn Cyngor Caffael hwn:-

- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Nodyn Polisi Caffael yr Alban (SPPN 3/2017) ar Gytundebau Fframwaith Hapfasnachol, Gorffennaf 2017
- Datganiad Polisi Caffael Cymru, Llywodraeth Cymru, 2015